WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Drefniadau Absenoldeb Oherwydd Salwch – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 709A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o'r gwaith a wnaed/i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Richard Hayward, Paul Goodlad a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn helpu i leihau lefelau absenoldeb.

Adroddiad cryno

Adroddiad manwl

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn helpu i leihau lefelau absenoldeb 5

Mae rheolwyr llinell yn cael cymorth priodol gan Adnoddau Dynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch 5

Mae trefniadau diwygiedig ar gyfer hysbysu, cofnodi, adrodd a monitro salwch wedi gwella cywirdeb data salwch, ond gellid symleiddio rhai agweddau ar y broses 6

Mae trefniadau gwell yn helpu i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth 7

# Adroddiad cryno

1 Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Roedd yr adroddiad yn cynnwys pum Cynnig ar gyfer Gwella, gan gynnwys cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro, cofnodi ac adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch.

2 Cafodd adolygiad dilynol ar ddechrau 2017 fod y Cyngor wedi adolygu ei allu Adnoddau Dynol, diweddaru'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo rheolwyr llinell a gweithredu dulliau newydd ar gyfer adrodd ar absenoldeb a'i fonitro. Roedd yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn. Roedd Cynllun Archwilio allanol y Cyngor 2017-18 yn cynnwys adolygiad dilynol i roi sicrwydd i'r Cyngor ar y trefniadau newydd ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch.

3 Yn yr adolygiad hwn, canfuom fod **trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn helpu i leihau lefelau absenoldeb.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod:

- rheolwyr llinell yn cael cymorth priodol gan Adnoddau Dynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch;
- mae trefniadau diwygiedig ar gyfer hysbysu, cofnodi, adrodd a monitro salwch wedi gwella cywirdeb data salwch, ond gellid symleiddio rhai agweddau ar y broses; ac
- mae trefniadau gwell yn helpu i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth.

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn helpu i leihau lefelau absenoldeb

### Mae rheolwyr llinell yn cael cymorth priodol gan Adnoddau Dynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch

4 Mae cymorth parhaus gan dîm Adnoddau Dynol y Cyngor wedi gwella gallu rheolwyr llinell i reoli absenoldeb oherwydd salwch y staff. Mae'r Adnoddau Dynol wedi darparu amrywiaeth o gymorth a hyfforddiant i reolwyr allu rheoli absenoldeb oherwydd salwch, a materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r holl reolwyr wedi cael hyfforddiant ar 'gael sgyrsiau anodd â chyflogeion'; mae hyn yn paratoi rheolwyr i ymdrin â sgyrsiau ar faterion sensitif neu emosiynol. Mae tua 40 o reolwyr hefyd wedi'u hachredu fel 'swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl', sy'n gallu nodi arwyddion o broblemau iechyd meddwl a helpu cyflogeion y mae angen cymorth arnynt.

5 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiadau llesiant rheolaidd sy'n ceisio gwella iechyd cyffredinol cyflogeion drwy fentrau fel hybu arferion bwyta'n iach a rheoli straen. Gan gefnogi'r sesiynau hyn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno proses asesu risg, sy'n helpu rheolwyr i ddatblygu cynllun gweithredu i gynorthwyo unrhyw gyflogai sy'n nodi ei fod yn teimlo dan straen.

6 Mae cyflwyno 'My View', sef system hunanwasanaeth ar y we i gyflogeion a rheolwyr weld a golygu manylion personol ar-lein, wedi gwella gallu rheolwyr llinell i reoli absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r system yn galluogi rheolwyr i baratoi adroddiadau absenoldeb sy'n nodi cyflogeion yn eu timau sydd wedi cyrraedd trothwy a nodwyd ym mholisi salwch y Cyngor. Mae'r system yn darparu ffordd syml ac effeithlon i reolwyr nodi problemau rheoli salwch. Fodd bynnag, mae rhai rheolwyr yn parhau i ddefnyddio taenlenni i fonitro salwch staff yn hytrach na'r adroddiadau sydd ar gael drwy 'My View'. Mae Adnoddau Dynol o'r farn bod y gwrthwynebiad hwn i newid yn fater diwylliannol a fydd yn gwella dros amser wrth i reolwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r system a'r nodweddion y gall eu darparu.

7 Mae rhai pryderon ymhlith rheolwyr llinell ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Cafodd darparwr Iechyd Galwedigaethol newydd ei benodi ym mis Gorffennaf 2017. Mae rheolwyr llinell yn bennaf yn gwneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag adnoddau dynol, er y gall cyflogeion hunanatgyfeirio. Yr adborth a gawsom oedd bod rhai rheolwyr yn teimlo nad yw'r cyngor a'r ymyriadau gan Iechyd Galwedigaethol yn fuddiol o ran helpu rheolwyr i reoli absenoldeb oherwydd salwch. Fodd bynnag, efallai fod rhai rheolwyr yn disgwyl mwy gan Iechyd Galwedigaethol na'i gylch gwaith o ddarparu cyngor o safbwynt meddygol i gynorthwyo'r cyflogai.

## Mae trefniadau diwygiedig ar gyfer hysbysu, cofnodi, adrodd a monitro salwch wedi gwella cywirdeb data salwch, ond gellid symleiddio rhai agweddau ar y broses

8 Mae polisi absenoldeb oherwydd salwch y Cyngor, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2016, yn glir ac yn gynhwysfawr. Mae'r polisi wedi'i fwriadu i helpu rheolwyr i gynorthwyo cyflogeion sy'n sâl ac i reoli absenoldebau heb gyfiawnhad. Mae'n diffinio rolau a chyfrifoldebau penodol rheolwyr, adnoddau dynol, cyflogeion ac undebau llafur mewn perthynas ag absenoldeb oherwydd salwch ac yn pwysleisio bod gan reolwyr llinell gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro absenoldeb.

9 Mae proses newydd ar gyfer adrodd am salwch, sy'n hyrwyddo ffordd fwy cyson o gofnodi natur y salwch, wedi helpu i wella eglurder a chywirdeb adrodd ar ddata salwch. Mae'r ffigur 'dim rheswm' dros salwch ar draws y Cyngor wedi gostwng o 26% yn 2017 i 11% yn 2018. Mae amseroldeb adrodd ar salwch wedi gwella hefyd. Mae swyddogion cyflogres bellach yn diweddaru'r gronfa ddata absenoldeb oherwydd salwch yn ddyddiol, yn hytrach nag ar sail ad-hoc, pryd bynnag y mae blaenoriaethau sy'n cystadlu yn caniatáu hynny. Maent hefyd yn defnyddio dull mwy rhagweithiol o fynd ar drywydd ffurflenni dychwelyd i'r gwaith coll, sy'n helpu i sicrhau bod data a gedwir ar y system adnoddau dynol yn gyfredol.

10 Byddai proses electronig o gofnodi data salwch yn fwy effeithlon na'r dull presennol â llaw, ar bapur. Ar hyn o bryd mae rheolwyr yn cwblhau ffurflen bapur (ffurflen SSP1) pan fydd cyflogai'n rhoi gwybod ei fod yn sâl, ac mae'r rheolwyr yn anfon y ffurflen hon drwy bost mewnol i dîm y Gyflogres. Yna mae'r swyddogion cyflogres yn mewnbynnu'r data hyn i system adnoddau dynol a chyflogres integredig 'Resource Link'. Byddai caniatáu i reolwyr gofnodi gwybodaeth salwch yn uniongyrchol ar 'Resource Link', gan ddefnyddio adran 'My View' ar y system yn fwy effeithlon. Er bod Adnoddau Dynol wedi nodi manteision posibl defnyddio ateb electronig un cofnod, mae gallu'r adran Adnoddau Dynol yn canolbwyntio ar gwblhau'r hyn sy'n dasgau blaenoriaeth uwch ym marn y Cyngor.

11 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau gweithredu i wella'r ffordd mae rheolwyr yn ymgysylltu â staff sy'n absennol neu ar absenoldeb salwch. Mae rheolwyr bellach yn cysylltu â staff absennol ar gam cynnar, i ddeall yn gliriach pa gymorth y gallai fod ei angen ar y cyflogai er mwyn dychwelyd i'r gwaith. Mewn rhai achosion, mae'r dull hwn yn helpu i leihau hyd absenoldeb oherwydd salwch ac osgoi sefyllfaoedd a allai ysgogi absenoldeb pellach fel arall.

12 Mae'r trefniadau corfforaethol ar gyfer adrodd ar wybodaeth rheoli salwch yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, ceir anghysondeb rhwng y math o wybodaeth a baratoir i hysbysu'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae gwybodaeth monitro'r gweithlu, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, yn cael ei hadrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac, o 2017-18 ymlaen, yn chwarterol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae'r ddau adroddiad yn fanwl ac wedi'u hysgrifennu'n glir, ond maent yn darparu gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch mewn

ffyrdd gwahanol. Mae'r adroddiad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cwmpasu ‘cyfradd salwch fesul mis a chwarter’, ond nid yw'n darparu gwybodaeth na dadansoddiad am y ‘rheswm dros y salwch’. I'r gwrthwyneb, nid yw'r adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn darparu data ar gyfraddau salwch ond mae'n cynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros yr absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r ddau adroddiad yn cyfeirio at y dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer monitro salwch ‘nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE)’.

## Mae trefniadau gwell yn helpu i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth

13 Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch cyffredinol ar draws y Cyngor wedi gwella. Yn berthynol ac yn gymharol. Gwnaeth y dyddiau a gollwyd i salwch, fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (FTE), ostwng o 11.9 yn 2015-16, i 11.3 yn 2016-17. Gostyngodd hyn ymhellach i 10.9 ar gyfer 2017-18. Gwnaeth perfformiad absenoldeb oherwydd salwch y Cyngor o gymharu ag eraill yng Nghymru wella hefyd, o 18fed allan o 19[1] yn 2015-16, i 17eg allan o 21 yn 2016-17.

14 Mae'r camau a gymerwyd i wella rheoli absenoldeb wedi annog newid diwylliannol yn y Cyngor. Roedd y rheolwyr a holwyd gennym o'r farn bod staff y Cyngor yn fwy ymwybodol o lawer o ganlyniadau cymryd absenoldeb diangen o gymharu ag yn 2016.

15 Er gwaethaf y gwelliant cyffredinol o ran absenoldeb oherwydd salwch, gwnaeth perfformiad yn ystod 2017-18 ddirywio mewn dau faes gwasanaeth, sef Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Amgylchedd a Chynllunio. Mae hyn yn bryder penodol i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, y gwasanaeth â'r cyfraddau salwch cyffredinol uchaf yn ystod 2016-17. Mae ein trafodaethau ag uwch-swyddogion yn nodi bod y Cyngor yn ymwybodol o'r mater hwn a bu cynnydd yn y gwaith o graffu ar absenoldebau tymor byr Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod 2017-18.

[1] Cyflwynodd 19 o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru ddata perfformiad absenoldeb oherwydd salwch yn 2015-16; cyflwynodd 21 ddata ar gyfer 2016-17. Nid oes data cymharol ar gyfer 2017-18 ar gael eto.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail:
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru